# Cyflenwi meddyginiaethau milfeddygol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyflenwi meddyginiaethau milfeddygol i fodloni gofynion y claf milfeddygol ac ymarfer milfeddygol.

Bydd hyn yn cynnwys cyfrifo'r dogn cywir a gweinyddu'r feddyginiaeth gyda chyfarwyddyd a chyngor i'r perchennog/cynrychiolydd y perchennog.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer Person â Chymhwyster Addas (SQP). Mae categorïau gwahanol cofrestriad SQP ar gael ac maent yn effeithio ar y mathau o anifeiliaid y gellir rhoi meddyginiaethau iddynt. Mae'r modiwlau sydd ar gael fel a ganlyn:

- FAM – Anifeiliaid fferm (sy'n cynhyrchu bwyd)
- EQM – Ceffylaidd
- CAM – Anifeiliaid cydymaith.

Gall SQP feddu ar unrhyw gyfuniad o'r rhain. Gall SQP ragnodi a/neu gyflenwi categorïau penodol o gynnyrch o fewn cwmpas eu cofrestriad, o fewn y dosbarthiadau canlynol:

- POM-VPS (Meddyginiaeth Bresgripsiwn yn Unig - Milfeddyg, Fferyllydd, SQP)
- NFA-VPS (Anifail Nad yw'n Fwyd - Milfeddyg, Fferyllydd, SQP)
- AVM-GSL (Meddyginiaeth wedi ei Hawdurdodi gan Filfeddyg – Rhestr Werthu Gyffredinol)

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r risg i'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun a chydweithwyr wrth gyflenwi meddyginiaethau milfeddygol
2. cael gwybodaeth gan y perchennog/cynrychiolydd y perchennog i alluogi'r dewis gofynnol o feddyginiaeth filfeddygol i gael ei wneud
3. dewis meddyginiaeth filfeddygol i fodloni anghenion gofynnol y claf milfeddygol
4. cyflenwi meddyginiaeth filfeddygol yn unol â phresgripsiwn ysgrifenedig gan Berson Cymwys Cofrestredig (RQP) arall
5. cyfrifo a gweinyddu'r maint gofynnol o feddyginiaeth filfeddygol, gan roi cyngor i gleientiaid a chwsmeriaid ar ddognau ac amlder gweinyddu
6. darparu labeli yn unol â deddfwriaeth berthnasol a gweithdrefnau'r filfeddygfa
7. cydymffurfio â rheoliadau a deddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â darparu meddyginiaeth filfeddygol
8. cynghori'r perchennog/cynrychiolydd y perchennog ynghylch llwybr cywir gweinyddu, yn ogystal â thrin, storio a gwaredu meddyginiaeth filfeddygol fel y mae'n ofynnol
9. storio a gwaredu meddyginiaeth filfeddygol yn unol â deddfwriaeth berthnasol a gweithdrefnau ymarfer milfeddygol
10. cwblhau a storio cofnodion o gyflenwad y feddyginiaeth filfeddygol yn unol â deddfwriaeth berthnasol a gweithdrefnau'r filfeddygfa
11. cyfeirio perchennog/cynrychiolydd perchennog at lawfeddyg milfeddygol os oes unrhyw amheuaeth ynghylch y diagnosis neu os oes angen Meddyginiaeth Bresgripsiwn yn Unig (POM)
12. gwneud eich gwaith yn unol â'r deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau busnes perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i asesu'r risg i'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun a chydweithwyr wrth gyflenwi meddyginiaethau milfeddygol
2. y wybodaeth sy'n ofynnol i alluogi'r dewis priodol o feddyginiaeth filfeddygol i gael ei wneud
3. sut i gyfrifo dognau, meintiau ac amlder gweinyddu meddyginiaethau milfeddygol
4. sut i ddehongli a dilysu presgripsiwn meddyginiaeth filfeddygol ysgrifenedig
5. pwysigrwydd cadarnhau'r dogn a ragnodwyd a goblygiadau peidio â gwneud hynny wrth gyflenwi meddyginiaeth filfeddygol
6. cyflwyniadau gwahanol meddyginiaeth filfeddygol, yn cynnwys defnyddio enwau perchnogol a generig
7. y categorïau cyfreithiol perthnasol ar gyfer meddyginiaethau milfeddygol a phwy all eu gweinyddu
8. y gofynion cyfreithiol ac ymarfer milfeddygol perthnasol ar gyfer labelu meddyginiaeth filfeddygol
9. y dosbarthiadau gwahanol ar gyfer meddyginiaethau a weinyddir gan fferyllfa filfeddygol
10. y gofynion cyfreithiol perthnasol a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cadw cofnodion ymarfer milfeddygol, yn cynnwys cyffuriau wedi eu rheoli
11. darparu a chyflenwi presgripsiwn milfeddygol i'w ddefnyddio gan Berson Cymwys Cofrestredig (RQP) arall
12. y gweithdrefnau rheoli fferyllfa filfeddygol mewn perthynas â mynediad gan bersonel awdurdodedig, rheoli, storio a gwaredu stoc
13. nodi'r gwrtharwyddion, adweithiau i gyffuriau, gorddosio a sut i hysbysu ynghylch amheuaeth o adweithiau niweidiol mewn cleifion milfeddygol
14. pryd i gyfeirio'r perchennog/cynrychiolydd y perchennog at lawfeddyg milfeddygol
15. eich cyfrifoldeb yn unol â deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau busnes

## Geirfa

RQP – Person Cymwys Cofrestredig – llawfeddyg milfeddygol, fferyllydd neu Berson â Chymhwyster Addas (SQP).

LANRVN23

Cyflenwi meddyginiaethau milfeddygol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANRVN29 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Person â Chymhwyster Addas |
| **Cyfres/Set** | Nyrsio Milfeddygol a Gwasanaethau Ategol |
| **Geiriau Allweddol** | gofal anifeiliaid; fferyllfa; person cymwys |